**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Cychwyn Rhif 5 a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2024**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan swyddogion polisi Rheoliadau Adeiladu ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Cychwyn Rhif 5 a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2024.

**Julie James AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai, Llywodraeth Leol a Chynllunio**
**4 Ebrill 2024**

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn is-ddeddfwriaeth sy'n rhoi rhai o'r newidiadau i Ddeddf Adeiladu 1984 ("Deddf 1984") a gyflwynwyd gan Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 ("Deddf 2022") ar waith.

1.2 Mae Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladu 2022 (Cychwyn Rhif 5 a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2024 ("y Rheoliadau"), mewn perthynas â Chymru yn:

- cychwyn adran 49(1) a (2) o Ddeddf Diogelwch Adeiladu 2022;
- diwygio Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 ("Gorchymyn 2005") mewn dau le i gynnwys cyfeiriadau at gymeradwywyr cofrestredig rheolaeth adeiladu,
- diwygio Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010 ("Rheoliadau 2010") i newid cyfeiriadau at arolygwyr cymeradwy i "gymeradwywyr",
- diwygio Rheoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) 2012 ("Rheoliadau 2012") i newid cyfeiriadau at arolygwyr cymeradwy i gymeradwywyr cofrestredig rheolaeth adeiladu.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Mae'r Rheoliadau yn diwygio Gorchymyn 2005, Rheoliadau 2010 a Rheoliadau 2012, bob un ohonynt yn rheoliadau i Gymru a Lloegr. Felly, ni fydd y Rheoliadau diwygiedig yn ymddangos yn ddwyieithog. Mae'r diwygiadau hyn yn cael eu gwneud nawr er mwyn sicrhau y gall y gyfundrefn rheolaeth adeiladu newydd weithredu'n effeithiol o 6 Ebrill 2024. Mae bwriad i wneud rheoliadau newydd fydd yn berthnasol i Gymru yn unig i gymryd lle Rheoliadau 2010. Bydd y rheini'n ddwyieithog.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Yn dilyn trychineb Tŵr Grenfell, penododd Llywodraeth y DU y Fonesig Judith Hackitt i arwain adolygiad annibynnol o reoliadau adeiladu a diogelwch tân yn Lloegr. Yn ei hadroddiad terfynol, amlinellodd y Fonesig Judith Hackitt ddull newydd o reoli risgiau o ran diogelwch tân a diogelwch strwythurol mewn adeiladau preswyl amlfeddiannaeth uchel iawn ynghyd â newidiadau sylfaenol i'r ffordd y mae'r system

rheoli adeiladu yn gweithio, ochr yn ochr â gwella cymwyseddau ym mhob rhan o'r proffesiwn a'r diwydiant yn fwy cyffredinol.

3.2 Datblygodd ein Grŵp Arbenigol ar Ddiogelwch Adeiladau ein hunain ‘Fap tuag at adeiladau mwy diogel yng Nghymru’ gan gymhwyso'r argymhellion yn adroddiad Hackitt i sefyllfa Cymru. Adeiladwyd ar y cynigion hyn yn y Papur Gwyn: Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru, a nododd sut roeddem am fynd i'r afael â'r problemau yn y camau dylunio ac adeiladu ac yn y cam meddiannu. Esboniwyd yn y Papur Gwyn y byddai newidiadau i'r gyfundrefn dylunio ac adeiladu yng Nghymru yn cael eu cyflwyno drwy Ddeddf 2022.

3.3 Cyflwynodd Deddf 2022, a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2022, becyn o newidiadau deddfwriaethol mewn perthynas â diogelwch adeiladau. Ar gyfer Cymru, mae'r Ddeddf yn cynnwys, ymhlith darpariaethau eraill, newidiadau deddfwriaethol i sefydlu prosesau dylunio ac adeiladu newydd, goruchwylio cymwyseddau'r rhai sy'n gweithredu'r system a gwelliannau eraill i helpu i godi adeiladau mwy diogel yn gyffredinol. Ceir darpariaeth benodol hefyd mewn perthynas ag adeiladau risg uwch.

3.4 Diben cyffredinol y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y fframwaith rheoleiddiol yn parhau i fod yn gymwys, lle bo hynny'n briodol, wrth i reolaeth adeiladu yn y sector preifat newid o Arolygwyr Cymeradwywyr, o dan yr hen drefn, i Gymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu o dan y drefn newydd.

3.5 Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 167(1) a (2)(a) ac adran 170(4)(b)(vi) o Ddeddf 2022.

3.6 Mae'r Rheoliadau yn cael eu gwneud o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae'r Rheoliadau'n rhan o gyfres o ddeddfwriaeth newydd. Eu bwriad cyffredinol yw gwella safonau a diogelwch ar draws yr amgylchedd adeiledig ac, ar yr un pryd, roi eglurder i'r diwydiant o ran ei gyfrifoldebau a'i ddyletswyddau.

4.2 Gwnaeth Deddf 2022 nifer fawr o newidiadau i Ddeddf 1984, ac felly mae'r newidiadau'n cael eu gweithredu fesul cam. Bwriedir i'r gyfundrefn rheolaeth adeiladu newydd (rhoi Deddf 2022 yn ei chyfanrwydd ar waith) fod yn ei lle ym mis Ebrill 2025.

4.3 Mae Adran 43 o Ddeddf 2022 yn diwygio Deddf 1984 i drosglwyddo swyddogaethau rheolaeth adeiladu'r sector preifat o Arolygwyr

Cymeradwy, o dan yr hen drefn, i Gymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu o dan y drefn newydd.

4.4 Bwriedir i'r newid hwn lifo o'r rheoliadau i'r is-ddeddfwriaeth sy'n darparu system rheolaeth adeiladu ar gyfer y sector preifat, sef Rheoliadau 2010.

4.5 Bydd hynny'n sicrhau dilyniant o ran rheolaeth adeiladu'r sector preifat wrth i'r sector symud i'r gyfundrefn rheolaeth adeiladu newydd.

4.6 Gwneir hyn drwy newid cyfeiriadau at "arolygydd cymeradwy" yn Rheoliadau 2010 i "gymeradwywr".

4.7 Roedd diwygiad cynharach i Reoliadau 2010 yn mewnosod y diffiniad o "gymeradwywr" yn rheoliad 2. Mae “cymeradwywr” yn golygu cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu o fewn ystyr adran 58N y Ddeddf.

4.8 Lle mae'r term "arolygydd cymeradwy" wedi'i adael yn Rheoliadau 2010, mae'r rheini'n ymwneud â rheoleiddio arolygwyr cymeradwy dros y cyfnod pontio i'r gyfundrefn reoleiddio newydd, a ddaw i ben ar 1 Hydref 2024.

4.9 Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol tebyg i Orchymyn 2005 a Rheoliadau 2012.

4.10 Mae'r Rheoliadau hefyd yn cychwyn adran 49 o Ddeddf 2022 er mwyn gwneud diwygiadau i adran 50 o Ddeddf 1984. Drwy hynny, bydd Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu yn gallu delio â Thystysgrifau Planiau o dan y gyfundrefn newydd. O'r blaen, Arolygwyr Cymeradwy oedd yn ymdrin â thystysgrifau planiau.

4.11 Ceir darpariaethau trosiannol, yn rheoliad 4 o’r Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Cychwyn Rhif 4, Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) (Cymru) 2024, sy'n sicrhau y gellir Arolygwyr Cymeradwy parhau i weithredu, o dan rhai amgylchiadau, dros y cyfnod trosiannol rhwng 6 Ebrill 2024 a 1 Hydref 2024.

4.12 Mae'r Rheoliadau'n croesgyfeirio at y ddarpariaeth hon mewn darpariaeth drosiannol newydd sy'n sicrhau nad yw'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud yma i'r term "arolygydd cymeradwy" yn berthnasol i'r

arolygwyr cymeradwy sy'n cael parhau i weithredu dros y cyfnod trosiannol.

## 5. Ymgynghori

5.1 Nid oes dyletswydd statudol i ymgynghori ar y Rheoliadau. Fodd bynnag, yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru ar ymgynghori, cafodd ymgynghoriad ei gynnal ar y gyfres o ddeddfwriaeth newydd.

5.2 Ymgynghorwyd â Phwyllgor Cynghori Cymru ar Reoliadau Adeiladu (BRACW) a chynhaliwyd gweithdy gyda rhanddeiliaid allweddol y diwydiant ar y newidiadau i'r proffesiwn rheolaeth adeiladu.

5.3 Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol wrth ddatblygu'r gyfres newydd o ddeddfwriaeth. Cyhoeddwyd dogfen ymgynghori 'Rheoleiddio'r Proffesiwn Rheoli Adeiladu a Chyrff Rheoli Adeiladu'[1] ar 21 Ebrill 2023 a oedd yn gofyn i'r cyhoedd ystyried y cynigion ar gyfer y darpariaethau hyn. Tynnwyd sylw cynulleidfa eang o randdeiliaid allweddol at yr ymgynghoriad, gan gynnwys Arolygwyr Cymeradwy, Cyrff Rheolaeth Adeiladu Awdurdodau Lleol a chyrff proffesiynol megis Cymdeithas Siartredig y Peirianwyr Adeiladu (CABE), Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS) a'r Sefydliad Adeiladu Siartredig (CIOB).

5.4 Cynhaliwyd ymgynghoriad wyth wythnos rhwng 21 Ebrill 2023 a 16 Mehefin 2023 ar y cynigion drafft ar gyfer y gyfres o ddeddfwriaeth newydd. Cyn i'r ymgynghoriad gael ei gyhoeddi cafwyd ymgysylltiad wedi'i dargedu â rhanddeiliaid.

5.5 Daeth 11 o ymatebion i law i'r ymgynghoriad gan amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys y rhai yn y categorïau Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr, Arolygydd Cymeradwy, Rheolaeth Adeiladu Awdurdodau Lleol, Corff Proffesiynol a Phartïon eraill â diddordeb. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ym mis Hydref 2023 (dogfen WG48357)[2].

5.6 Ystyriwyd ymatebion wrth ddrafftio'r gyfres o ddeddfwriaeth newydd, er na chafwyd unrhyw ymatebion a oedd yn trafod yn benodol y darpariaethau yn y Rheoliadau hyn.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

6.1 Gan fod yr offerynnau hyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol i ddiweddaru is-ddeddfwriaeth ac nad yw'r diwygiadau yn newid y polisi (na'i effaith) mewn unrhyw ffordd sylweddol na sut y caiff ei gymhwyso mewn sefyllfa benodol, nid oes angen asesiad effaith rheoleiddiol. Mae

[1] Rheoleiddio'r proffesiwn Rheoli Adeiladu a chyrff Rheoli Adeiladu (llyw.cymru)

[2] Crynodeb o'r Ymatebion ac Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar Reoleiddio'r proffesiwn Rheoli Adeiladu a chyrff Rheoli Adeiladu

hyn yn cydymffurfio â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru o ran cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.

## 7. Adolygiad ar ôl gweithredu

7.1 Roedd Deddf 2022 yn cynnwys gofyniad statudol ar yr Ysgrifennydd Gwladol i benodi person annibynnol i gynnal adolygiad o'r system reoleiddio bob 5 mlynedd. Penodir yr adolygydd cyntaf o fewn pum mlynedd i gydsyniad brenhinol. Er na chafodd yr un gofyniad statudol ei gymhwyso i Gymru, argymhellir bod Gweinidogion Cymru yn mabwysiadu dull tebyg.

7.2 O'r herwydd, bydd Asesiad Effaith o'r newidiadau i'r proffesiwn rheolaeth adeiladu yn cael ei gomisiynu a'i adolygu ar ôl 5 mlynedd oni bai bod amgylchiadau'n gofyn am ei adolygu cyn hynny.